**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 10 Mehefin 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Win Mullen-James |
| **2** | PENODI CADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.* |
| **3** | PENODI IS-GADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.* |
| **4** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu. |
| **5** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **6** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015 fel cofnod cywir.* |
| **7** | ADRODDIAD DIWEDDARU YNGLŶN Â CHOD GWISG GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *gofyn i swyddogion ddiwygio Cod Gwisg Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat er mwyn caniatáu siorts wedi'u teilwra hyd at y pen-glin, ond bod yn fwy cyfarwyddol, h.y. dim siorts denim na siorts chwaraeon.* |
| **8** | POLISI EITHRIO ARDDANGOS PLÂT CERBYD HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD -*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | ARFAETHEDIG | *(a) bod y Polisi Eithrio Plât Hurio Preifat arfaethedig, fel y caiff ei nodi yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei gefnogi a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori ffurfiol, ac*<br><br>*(b) yn dilyn ymgynghoriad, bod swyddogion yn adrodd yn ôl unrhyw ymatebion i'r Cyngor Llawn i'w hystyried a chymeradwyo'r polisi newydd arfaethedig.* |
| **9** | ADOLYGU POLISI CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD -***<br><br>*(a) bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y Gwasanaeth Fflyd yn cael ei wahodd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi i roi cyflwyniad ar y fanyleb a phrofi cerbydau, a*<br><br>*(b) bod y Cynghorwyr Pete Prendergast a Cefyn Williams (Cadeirydd) yn cael eu henwebu i fynychu'r sesiynau gweithdy a drefnwyd fel y nodir yn y cynllun gweithredu (Atodiad B i adroddiad y rhaglen waith).* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015/16 | ***PENDERFYNWYD -***<br><br>*(a) tynnu'r broses o reoleiddio Cerbydau Hacni oddi ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol 2015/16, a*<br><br>*(b) chymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu a blaenoriaethau'r Adain Trwyddedu ar gyfer 2015/16.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 10 Mehefin 2015**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **11** | ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0269/TXJDR | ***PENDERFYNWYD** rhoi rhybudd i Yrrwr Rhif 15/0269/TXJDR ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol.* |
| **12** | ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 14/0459/TXJDR | ***PENDERFYNWYD** diddymu Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 14/0459/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd am gyfnod o bythefnos.* |